



## **Tennis Bwrdd Cymru**

### **Polisi'r Gymraeg**

#### **Cyflwyniad**

Mae Tennis Bwrdd Cymru yn cydnabod bod gan y Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, statws swyddogol a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Credwn ei bod yn arfer da i gynnig gwasanaethau yn newis iaith ein chwaraewyr, clybiau, gwirfoddolwyr, rhieni, partneriaid, a'r gymuned ehangach. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd galluogi ac annog ein staff a'n gweithlu i ddefnyddio eu dewis iaith yn y gweithle.

Rydym wedi ymrwmo i wneud cynnydd parhaus tuag at yr uchelgais hon. Mae'r ddogfen hon, Polisi'r Gymraeg, yn nodi ein hymrwymadau presennol a, lle bo hynny'n briodol, yn nodi meysydd i'w datblygu ymhellach.

Mae'r ymrwymadau hyn yn cael eu cymhwyso'n rhesymol ac yn gymesur gan ganolbwyntio ar weithgareddau a gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru neu i bobl sy'n byw yng Nghymru, ac maent yn ystyried yr adnoddau ariannol a dynol sydd ar gael i ni. Byddwn bob amser yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwynion am y polisi hwn at Brif Weithredwr neu Gadeirydd Tennis Bwrdd Cymru. Mae manylion cyswllt ar gael ar ein gwefan.

#### **Delwedd Gyhoeddus**

##### **Arwyddion**

Ar hyn o bryd, nid yw Tennis Bwrdd Cymru yn defnyddio arwyddion parhaol na rhai dros dro. Os cyflwynir arwyddion yn y dyfodol, byddant yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol.

##### **Brand Corfforaethol**

Mae ein brand corfforaethol yn ddwyieithog.

## **Nwyddau Ysgrifennu**

Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod gan nwyddau ysgrifennu hunaniaeth weledol ddwyieithog.

## **Cardiau Busnes**

Bydd cardiau busnes a ddefnyddir gan Tennis Bwrdd Cymru yn ddwyieithog.

## **Gwefan**

Mae rhywfaint o gynnwys Cymraeg ar ein gwefan ar hyn o bryd. Ein nod yw cynyddu'r cynnwys Cymraeg pan fydd adnoddau'n caniatáu.

## **Gwasanaethau Digidol**

Nid yw'r gwasanaethau digidol rydym yn eu darparu'n uniongyrchol neu drwy bartneriaid yn ddwyieithog ar hyn o bryd.

## **Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae ein cyfryngau cymdeithasol cyfredol yn cael eu darparu yng Nghymru yn unig.

## **Hysbysebu Trwy Ddarlledu**

Nid ydym yn defnyddio hysbysebu trwy ddarlledu ar hyn o bryd. Os gwnawn hyn yn y dyfodol, bydd yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol ac o fewn y gyllideb.

## **Hysbysebu yn y Wasg**

Ar hyn o bryd, nid ydym yn hysbysebu yn y wasg Gymraeg. Os byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol, bydd hysbysebion yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol a chyllidebau yn caniatáu.

## **Hysbysebu i Recriwtio**

Ar hyn o bryd, mae'r holl hysbysebion recriwtio yn Gymraeg yn unig.

## **Hysbysebu yn yr Awyr Agored**

Mae gennym nifer bach o faneri dan do/awyr agored, sy'n ddwyieithog. Bydd unrhyw ddeunyddiau hysbysebu yn y dyfodol yn ddwyieithog hefyd, lle bo'n briodol ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

## **Cefnogi ein Haelodau**

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid dibynadwy i hwyluso mynediad at gyfleoedd dysgu Cymraeg i'n haelodau, yn ddelfrydol am gyfraddau gostyngol lle bo'n bosibl.

## **Cyhoeddiadau**

### **Cyhoeddiadau Printiedig**

Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau printiedig yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol ac mae cyllidebau yn caniatáu.

### **Cyhoeddiadau Electronig**

Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod cyhoeddiadau electronig yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol ac mae cyllidebau yn caniatáu.

### **Deunyddiau Arddangos a Marchnata**

Bydd yr holl ddeunyddiau arddangos a hyrwyddo perthnasol yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

### **Negeseuon a Chyhoeddiadau Sain wedi'u Recordio Ymlaen Llaw**

Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod negeseuon ffôn swyddfa yn ddwyieithog.

## **Cyfathrebu**

### **Cadw Cofnodion**

Nid ydym yn cofnodi dewisiadau iaith cwsmeriaid ar hyn o bryd, ond byddwn yn dechrau gwneud hynny pan fydd adnoddau yn caniatáu.

### **Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb**

Ni allwn warantu gwasanaeth Cymraeg bob amser, ond rydym yn croesawu ac yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wneud hynny gyda chwsmeriaid sy'n dymuno gwneud hyn.

### **Ateb Galwadau Ffôn**

Caiff galwadau eu hateb yn Saesneg ar hyn o bryd.

### **Gohebiaeth Ysgrifenedig**

Mae'r holl ohebiaeth yn cael ei chyhoeddi yn Saesneg ar hyn o bryd. Rydym yn parchu hawl unigolion i gyfathrebu â ni yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn eu dewis iaith lle bo hynny'n bosibl ac mae adnoddau yn caniatáu.

### **Dogfennau Cyfrifon a Ffurflenni**

Mae ein dogfennau cyfrifon a'n ffurflenni ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud â meddalwedd. Byddwn yn archwilio opsiynau dwyieithog pan fydd diweddariadau i'r system yn caniatáu.

## **Staff a'r Gweithle**

### **Cyllideb Flynyddol**

Bydd y Bwrdd yn ystyried anghenion cyfieithu wrth gynllunio'r gyllideb. Mewn blynyddoedd pan ragwelir gwarged, bydd y Bwrdd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod adnoddau cyfieithu yn bodloni disgwyliadau'r aelodau.

### **Gofynion Iaith wrth Recriwtio**

Byddwn yn cofnodi'r lefel sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer rolau perthnasol (er enghraifft, swyddi sydd â chyfrifoldebau'n ymwneud â'r cyhoedd). Bydd y Gymraeg yn cael ei rhestru fel sgil ddymunol o leiaf ym mhob hysbyseb swydd.

### **Cofnodi a Datblygu Sgiliau Iaith Staff**

Nid oes gennym unrhyw siaradwyr Cymraeg yn nhîm Tennis Bwrdd Cymru.

### **Cyfathrebu Mewnol**

Rydym yn disgwyl i staff barchu dewisiadau iaith cydweithwyr a chwsmeriaid a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle.

### **Cyhoeddiadau Mewnol**

Mae ein cylchlythyr mewnol yn Saesneg ar hyn o bryd. Ein nod yw cynhyrchu argraffiadau dwyieithog pan fydd adnoddau yn caniatáu. Pan fo cynnwys cysylltiedig ar gael yn ddwyieithog, bydd y ddwy fersiwn yn cael eu cynnwys. Bydd pob cylchlythyr yn defnyddio ein logo dwyieithog.

### **Meddalwedd Gymraeg**

Gall staff osod rhyngwynebau Cymraeg lle maent ar gael ar gyfer y feddalwedd y maent yn ei defnyddio.

## **Arweinyddiaeth**

Bydd y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar lefel uchaf ein sefydliad. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am weithredu, hyrwyddo ac adolygu'r polisi hwn.

## **Ymwybyddiaeth**

Bydd copi o'r polisi hwn yn cael ei ddarparu i'r holl staff.

## **Adolygu**

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn ffurfiol bob dwy flynedd o leiaf.

## **Gwasanaethau a Ddarperir ar ein Rhan**

Bydd unrhyw gontractwyr neu drydydd partion sy'n darparu gwasanaethau ar ran Tennis Bwrdd Cymru yn cael eu hannog i gydymffurfio â'r polisi hwn.